

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
28 CHWEFROR 2023

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 28 Chwefror 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Marion Bateman a Ron Davies

Swyddogion y Cyngor:

Swyddog Trwyddedu (Jacqui Dale) Swyddog Rheoli Llygredd (Neil Shellard)
Cyfreithiwr (Matthew Powell) Swyddog Gwasanaethau Democraataidd (Janet Kelly)

Hefyd yn bresennol:

Yr Ymgeisydd:

Hérons Lake Retreat Ltd. Mr Andrew Arbour (Rheolwr)

Unigolion â Chysylltiad:

Y Cynghorydd Steve Cople yn siarad ar ran y gwrthwynebwyr

Gwrthwynebwyr

Mrs Swinchatt, Mrs Wynne, Ms Jones, Mr Besford, Miss Morris
a Mrs Forster

1. YMDDIHEURIADAU

Dim.

2. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3. GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Eglurodd y Cadeirydd y drefn ar gyfer y gwrandawriad a phenderfynu ar y cais a nododd drefn y bydd y siaradwyr yn annerch y Panel.

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu yr adroddiad i'r Aelodau ystyried cais amrywio a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â Herons Lake Retreat, Bryn Caerwys, Caerwys, Sir y Fflint CH7 5AD gyda'i leoliad wedi'i amlygu ar y cynllun yn Atodiad A. Yr ymgeisydd oedd Herons Lake Retreat Ltd. Gyda'r eiddo ar hyn o bryd yn dal Trwydded Safle PA0829 a oedd yn caniatáu ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle (ar gyfer siop ar y safle) gyda'r oriau agor a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd y cais amrywio i newid gwerthiant alcohol i 'werthiant ar ac oddi ar' ac i ychwanegu Tipi i'r ardal drwyddedig, a fyddai'n cynnwys bar bach y tu mewn ac yn cynnwys man eistedd allanol. Roedd yr amrywiad hefyd yn cynnwys

ychwanegu cerddoriaeth wedi'i recordio at y drwydded. Amlinellwyd yr amseroedd y ceisir eu cyflwyno ar gyfer cerddoriaeth wedi'i recordio a gwerthu Alcohol yn yr adroddiad.

Ni wnaed cais i ddiwygio'r oriau gweithredu presennol, gweithgareddau trwyddedadwy nac amodau eraill a gymeradwywyd ar y Drwydded. Pe bai'n cael ei ganiatáu, byddai'r ardal wedyn yn elwa o ddarpariaethau'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw a Dadreoleiddio Adloniant Rheoledig. Byddai hyn hefyd yn caniatáu adloniant rheoledig o fewn yr ardal drwyddedig o 08.00am tan 11.00pm bob dydd heb fod angen trwydded ar wahân. Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu y canlynol:-

- Atodiad A – yn cynnwys cynllun o'r safle y cyfeirir ato yn y cais
- Atodiad B – yn cyfeirio at gynllun i nodi safle'r Tipi
- Atodiad C – yn cyfeirio at sylwadau a dderbyniwyd gan Adain Rheoli Llygredd Cyngor Sir y Fflint ar 6 Chwefror 2023.
- Atodiad D – yn cyfeirio at lythyrau o wrthwynebiad a gafwyd oddi wrth drigolion lleol.
- Atodiad E - yn cyfeirio at y camau yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau gan yr Awdurdodau cyfrifol eraill.

Yna darllenodd y Swyddog Trwyddedu yr amodau trwyddedu presennol i roi rhywfaint o gefndir i Aelodau'r pwyllgor, ynghyd â'r amodau gorfodol a osodwyd ar gyfer yr amserlen weithredu.

Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu fod y cais yn cael ei hysbysebu yn y modd cywir yn y papur newydd lleol ac ar y safle. Nid oedd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Gan gyfeirio at yr Ymgynghoriad, cadarnhawyd bod cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod yn cael ei gynnal yn dilyn derbyn y cais, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Trwyddedu. Cyfeiriodd at y risgiau a gafodd sylw yn y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac a ddangoswyd yn yr Atodlen Weithredu.

Yna gwahoddod y Cadeirydd y Panel i ofyn cwestiynau.

Ar ôl holi Mr Arbour, ymatebodd i gwestiynau ar nifer y deiliaid trwydded ac aelodau staff a oedd wedi'u hyfforddi a'r oriau yr oedd swyddogion diogelwch yn bresennol ar y safle.

Darparodd y Swyddog Rheoli Llygredd drosolwg o'i brofiad gwaith yn benodol ei gymwysterau yn ymwneud ag acwsteg a rheoli sŵn o fewn ceisiadau am drwyddedau ac amrywiadau. Fel cynrychiolydd yr awdurdod cyfrifol (lechyd yr Amgylchedd) ei rôl ef oedd sicrhau atal niwsans cyhoeddus (Amcan Trwyddedu D) yn ystod y broses hon. Roedd hyn yn cynnwys chwyddo sain a'i reolaeth ynghyd â sut y byddai hyn yn cael ei wireddu yn y gymdogaeth.

Roedd y cais hwn am gerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio tu mewn a thu allan a chadarnhaodd fod dau ymweliad safle wedi cael eu cynnal i'r safle. Adroddodd ar y blychau aer ar waelod a thop y babel Tipi a oedd yn bryder gan

fod y blychau aer yn gollwng sŵn. Cyfeiriwyd at agoswydd yr 17 eiddo a oedd 62 metr i ffwrdd gyda 5 eiddo o fewn 50 metr, a adeiladwyd cyn Herons Lake Retreat. Roedd y safle wedi'i leoli mewn dyffryn gyda phwll mawr a fyddai'n caniatáu i sŵn adlamu oddi ar y dŵr ac yn chwyddo'r sŵn sy'n teithio tuag at yr eiddo hyn.

Gan gyfeirio at godi'r Tipi, adroddwyd na fyddai'r defnydd yn insiwleiddio'n ddigonol nac yn atal sŵn rhag dianc yn yr un modd ag y byddai strwythur o frics yn ei wneud, yn enwedig pe bai'r ochrau'n cael eu hagor mewn tywydd cynhesach gan ganiatáu mwy o sŵn ddod allan. Nid oedd y cais yn cynnwys unrhyw gamau i liniaru hyn megis asesiad sŵn, cynllun rheoli sŵn neu fodelu acwstig 3d i ddangos na fyddai cerddoriaeth wedi'i recordio neu gerddoriaeth fyw yn broblem. Nid oedd yn glir a oedd unrhyw gyngor proffesiynol wedi'i gymryd ar hyn, heb gynnig dyfais cyfyngu sŵn, ac eglurodd sut roedd y dyfeisiau hyn yn gweithio mewn adeiladau ond teimlai na fyddai'n gweithio yma gan fod y cyfleuster mor wan. Nid oedd y cais yn nodi lefelau'r gerddoriaeth gefndir a recordiwyd ac roedd ganddo bryderon y byddai hyn yn cynyddu dros amser. Rhoddwyd gwybodaeth am yr ystod o lefelau desibel ar gyfer sgwrs a cherddoriaeth gefndir a sut y gallai'r rhain deithio a dod yn glywadwy i'r eiddo cyfagos. Fel arfer byddai cyfyngydd sŵn yn cael ei osod ar 92-94 ond eto roedd ganddo bryderon am y cyfleuster hwn. Crynhodd trwy ddweud ei fod yn gwrthwynebu'r cais hwn i amrywio'r drwydded gan y byddai cerddoriaeth wedi'i recordio yn achosi niwsans i gymdogion na ellid ei oresgyn trwy osod amodau. Roedd hwn yn lleoliad gwledig tawel iawn ac nid oedd y cyfleuster a fwriadwyd yn addas at y diben yn y lleoliad hwnnw. Roedd o'r farn y byddai sŵn clywadwy mewn eiddo a gerddi cyfagos yn ymwithiol ac yn andwyol i fwynderau ac ni fyddai'n hyrwyddo'r amcan trwyddedu.

4.1 SYLWADAU ODDI WRTH YR YMGEISYDD

Dywedodd Mr Andrew Arbor fod y cwmni wedi marchnata'r lleoliad fel encil tawel gyda'r cabanau a'r stiwdios yn lletya dau westai, gydag ychydig iawn o unedau mawr. Esboniodd fod pobl dros y 9 mlynedd diwethaf wedi eistedd wrth y llyn wrth gael diod a chwarae cerddoriaeth o'u ffonau i wyllo'r machlud a mwynhau'r golygfeydd. Roedd y cabanau o fewn 10 metr i'r Tipi ac nid oedd o fudd iddynt amharu nac achosi unrhyw niwsans i'w cwsmeriaid eu hunain heb sôn am eu cymdogion. Roedd yn fodlon gosod terfynau ar y gerddoriaeth gefndir ond eu nod oedd cadw pethau'n dawel. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda chwmnïau ynghylch seinyddion cyfeiriadol i gyfyngu ar y sain ac roedd yn hapus i hyn gael ei gynnwys fel amod. Ailadroddodd fod gwsteion yn gallu cysylltu â'r rheolwr ar ddyletswydd pe bai aflonyddwch yn digwydd a oedd bob amser yn cael ei drin fel argyfyngau gan ei fod o fudd iddynt fel busnes i hybu cytgord.

4.2 SYLWADAU ODDI WRTH WRTHWYNEBWYR

Siaradodd y Cynghorydd Steve Copple ar ran y 12 gwrthwynebydd oedd yn anghytuno'n gryf gyda'r cais hwn. Y prif fater ar draws yr holl lythrau oedd sŵn gan bobl a cherddoriaeth wedi'i seinchwyddo. Nid oedd unrhyw goed i atal sŵn yn mynd i mewn i'r eiddo ac roedd pryderon wedi'u codi ynghylch ffabrig gwan y Tipi. Roedd lleoliad y safle mewn dyffryn a oedd yn debyg i bowlen a

oedd yn dal sain ynddo ac roedd hyn yn bryder gwirioneddol i'r trigolion. Nid oedd unrhyw gynigion wedi'u nodi ar sut y byddai hyn yn cael ei liniaru.

Yna aeth y Cyfreithiwr yn ei flaen i ofyn cwestiynau i Mr Arbour.

Gofynnodd ble roedd y cwsmeriaid oedd yn defnyddio'r siop yn yfed yr alcohol? Cadarnhaodd Mr Arbour y byddai'r rhan fwyaf yn dychwelyd i'w cabanau i eistedd ar y teras neu y tu mewn yn dibynnu ar y tywydd. Mae cwsmeriaid nad oedd ganddynt olygfa o'r llyn yn defnyddio'r meinciau a ddarperir wrth y llyn.

Gan gyfeirio at y pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Cople ar ran trigolion, gydag un llythyr yn dweud bod hwn yn safle swllyd ac afreolus, gofynnodd y Cyfreithiwr i Mr Arbour am ei ymateb i hyn. Teimlai Mr Arbour mai dyma farn un person a bod y safle'n cael ei redeg fel encil tawel a heddychlon gan ddweud na fyddai eu cwsmeriaid yn dychwelyd pe bai'n swllyd. Roeddent yn cynnal safon dda a oedd yn sicrhau cytgord rhwng cwsmeriaid yn enwedig wrth chwarae cerddoriaeth fel nad oedd yn tarfu ar eu cymydog 5 metr i ffwrdd. Roedd polisi da ar waith, roedd yn safle proffesiynol gydag adolygiadau rhagorol. Teimlai y byddai'r Tipi yn darparu'r teras gorchuddiedig hwnnw yn ystod tywydd glawog ac yn darparu profiad gwell i'w cwsmeriaid yn enwedig pe bai seinchwyddwyr cyfeiriadol yn cael eu gosod i gyfyngu'r sŵn i lefel reoledig.

Gofynnodd y Cyfreithiwr am eglurhad ar y pwynt yn y polisi oedd yn datgan dim sŵn ar ôl 9.30 pm. Cadarnhaodd Mr Arbour y gofynnwyd i westeion fod yn dawel ar ôl 9.30pm i sicrhau na aflonyddwyd ar deuluoedd. Gorfodwyd hyn gyda gwesteion yn gallu ffonio'r rheolwr ar ddyletswydd.

Ynglŷn â gwerthu ac yfed alcohol o fewn y Tipi a'r cyffiniau, gofynnodd y Cyfreithiwr a oedd man eistedd y tu allan a oedd yn rhan o'r cais hwnnw. Pe caniateid y cais yna byddai'r gweithgareddau trwyddedu yn berthnasol i'r ardaloedd hynny yn ogystal â'r gweithgareddau dadreoleiddiedig. Mr Arbour confirmed the seating area had been present for several years and was 5 metres from the Tipi and shop where alcohol could be purchased. Gallai cwsmeriaid fynd â'r alcohol i'r man eistedd neu eu caban ac roedd y cais hwn yn caniatáu iddynt gael mynediad i'r seddi o fewn y Tipi.

Yna gofynnodd y Cyfreithiwr a oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwerthiannau yn y siop ac a oedd y Tipi yn ei le ac yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Mr Arbour y byddai'r gwerthiant yn y siop yn aros yr un fath. Roedd y Tipi yno eisoes ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ond byddai'n cael ei ddefnyddio ym mis Mawrth neu fis Ebrill pan fyddai'r tywydd yn gynhesach.

Yna gofynnodd y Cyfreithiwr o beth oedd y Tipi wedi'i wneud, a ellid tynnu'r ochrau mewn tywydd cynhesach a beth oedd ei gapasiti arfaethedig. Cadarnhaodd Mr Arbour fod y Tipi yn strwythur cynfas trwchus gyda drws gyda sip, yr oeddent yn ystyried ei newid am ddrws pren, ac y gellid codi'r ochrau ar gyfer awyru. Y capasiti arfaethedig oedd rhwng 12 a 25-30 o bobl gyda 10 i 15 yn eistedd y tu allan.

Gofynnodd y Cyfreithiwr a oedd ystyriaeth wedi ei roi i leoliad y Tipi, a oedd lle tân ynddo a Chynllun Rheoli Tân. Cadarnhaodd Mr Arbour fod y lleoliad wedi'i ddewis oherwydd ei fod yn ganolbwynt canolog gyda phobl yn ymhél i'r

man hwnnw a dyna pam y gosodwyd y seddi yno. Roedd lle tân yn bresennol ond gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio nid oedd Cynllun Rheoli Tân mewn lle ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr at un o'r llythyrau gwrthwynebu a oedd yn pryderu y byddai'n dod yn dafarn yn y pen draw a gofynnodd a oedd gwerthu alcohol o'r Tipi yn gyfyngedig i drigolion y safle neu'r cyhoedd yn ehangach. Dywedodd Mr Arbor gyda llawer o'r tafarndai lleol yn cau fod yna ddiffyg amwynderau i bobl ymweld â nhw, ond am y tro byddai'n cadw hwn ar gyfer eu trigolion yn unig.

Yna gofynnodd y Cyfreithiwr a oedd Cynllun Rheoli Sŵn yn ei le. Cadarnhaodd Mr Arbor fod cwsmeriaid wedi derbyn gwybodaeth wrth gyrraedd a oedd yn cynnwys pwy i gysylltu â nhw am unrhyw faterion, yn enwedig yn ymwneud â sŵn. Roedd rhywun ben arall y ffôn i'r rhif hwn 24 awr 7 diwrnod o'r wythnos. Roedd y polisi yn ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid ymddwyn yn gyfrifol, a gofynnwyd i westeion fod yn arbennig o dawel gyda lleisiau isel a lefelau cerddoriaeth isel ar ôl 9.30 pm.

Yna gofynnodd y Cyfreithiwr i Mr Arbor ar ôl clywed pryderon y trigolion ac i'r Swyddog Rheoli Llygredd a oedd unrhyw beth arall yr hoffai ei awgrymu. Dywedodd Mr Arbor y byddai'n croesawu sylwadau ar y cyfyngydd desibel a seinchwyddwyr cyfeiriadol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gwsmeriaid yn gallu ffonio'r rheolwr ar ddyletswydd a gofynnodd a oedd y trigolion lleol yn gallu ffonio'r rhif hwnnw hefyd. Credai Mr Arbor y gallent a bod un o'r trigolion lleol yn rheolwr ar ddyletswydd ar y safle. Roedd y rhif ffôn wedi'i restru ar y wefan a oedd yn cynnwys opsiwn 3 fel cyswllt ar gyfer y rheolwr ar ddyletswydd.

Ymatebodd y Swyddog Rheoli Llygredd i'r pwynt a wnaed gan Mr Arbor ynghylch seinchwyddwyr cyfeiriadol gan ddweud eu bod yn effeithiol iawn ond roedd ganddo bryderon o hyd oherwydd mai pabell oedd y cyfleuster. Roedd potensial ar gyfer bylchau aer mawr ac unwaith y byddai'r sipiau ar agor byddai'r gerddoriaeth wedi'i recordio mewn man agored yn ogystal â'r gweithgareddau dadreoleiddiedig pe bai'n cael ei ganiatáu. Dywedodd fod cyfyngwyr sŵn a seinchwyddwyr cyfeiriadol yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn lleoliadau a oedd yn adeiladau o gerrig ac ati, ond dywedodd y byddai sŵn yn llifo o'r cyfleuster hwn ac roedd ganddo amheuan ynghylch sut y gellid rheoli hyn heb achosi problemau i'r cymdogion.

Cyfeiriodd Mr Arbor at yr arfer o drigolion yn chwarae cerddoriaeth trwy eu ffonau a oedd wedi bod yn digwydd ers sawl blwyddyn a gofynnodd beth oedd lefel y desibel ar gyfer y rhain. Dywedodd y Swyddog Rheoli Llygredd nad oedd modd cymharu sŵn desibel o gyfyngwr sŵn gyda cherddoriaeth o apiau ffôn gan na fyddent yn cyrraedd 92 neu 94 a ddisgwyllir mewn cyfleuster cerddoriaeth, lleoliad priodas neu dafarn, ac oherwydd deunydd y cyfleuster nid oedd unrhyw rwystr sŵn, wal na dodrefn meddal i amsugno'r sŵn.

Dywedodd Mr Arbor nad oedd am i lefel y sŵn ddominyddu'r lleoliad a pheidio â chaniatáu i sgwrs ddigwydd. Byddai'n dymuno i'r seinchwyddwyr cyfeiriadol gael eu defnyddio ar yr un lefel ag a brofwyd ar hyn o bryd gan y ffonau clyfar a ddefnyddir gan drigolion. Dywedodd y Swyddog Rheoli Llygredd

fod seinchwyddwyr cyfeiriadol yn effeithiol iawn ond gyda'r cyfleuster wedi'i wneud o gynfas gyda'r ochrau'n debygol o gael eu codi yn yr haf, gallai ragweld problemau gyda hyn.

Gofynnwyd a fu raid i'r Heddlu ymweld oherwydd aflonyddwch yn Herons Retreat. Cadarnhaodd Mr Arbor y gallent fod wedi cael eu galw unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i ddiwyddiad domestig a oedd yn ddibwys dros yr 8 mlynedd o gymharu â nifer y bobl sy'n ymweld bob blwyddyn.

Gofynnwyd cwestiwn ar Bolisi Iechyd a Diogelwch y safle, yn enwedig o amgylch y rhwystrau ger y llynnoedd. Eglurodd Mr Arbor fod ffens yn ei lle, gyda llwybr o flaen honno cyn cyrraedd ffens arall ac yna'r llynnoedd. Roedd bwiau golau wedi'u lleoli o amgylch y llyn gyda pholisi dim nofio. Gofynnwyd i Mr Arbor pa mor aml yr oedd gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal a chadarnhaodd fod y rhain yn cael eu cynnal bron bob dydd. Roedd y cabanau'n cael eu glanhau'n ddyddiol ac roedd y rheolwr ar ddyletswydd yn patrolio'r safle cyfan gyda thîm cynnal a chadw ar y safle am 12 awr y dydd. Roedd y polisïau risg ar gael i unrhyw un eu harchwilio.

4.3 Penderfyniad ar y Cais

4.4 Penderfyniad

Darllenodd y Cadeirydd y Datganiad yn uchel. Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi penderfynu **gwrthod** y Cais a wnaed gan Herons Lake Retreat am amrywio ei drwydded safle.

Wrth ddod i'w penderfyniad bu'r Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried rhinweddau'r cais, y sylwadau a wnaed yn y gwrandawriad ac yn ystyried Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth y byddai'r amrywiad i gynnwys gweithgareddau trwyddedadwy o fewn Tipi a man eistedd y tu allan yn creu niwsans cyhoeddus a achosir gan sŵn yn dianc. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn rhoddwyd cryn bwysau i farn y Swyddog Rheoli Llygredd ac ystyriwyd barn y trigolion hefyd. Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried y mesurau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd o fewn y rhestr weithredu a natur y gweithrediadau presennol ond nid oedd yn fodlon bod y mesurau arfaethedig yn dangos sut y byddai'r amcanion trwyddedu, yn enwedig atal niwsans cyhoeddus, yn cael eu cyflawni. Bu'r Is-bwyllgor Trwyddedu'n ystyried a allent addasu neu osod amodau wedi'u diwygio ond o ystyried tystiolaeth y Swyddog Rheoli Llygredd penderfynodd na fyddai hyn yn effeithiol o ystyried y gweithreidiad arfaethedig ac felly nid oedd o'r farn y byddai addasu'r amodau yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nid oedd y penderfyniad hwn yn effeithio ar y drwydded gyfredol sydd gan yr ymgeisydd ac roedd gan yr ymgeisydd hefyd yr hawl i apelio, a fyddai'n cael ei anfon ato yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD:

Gwrthod y cais i amrywio'r drwydded.

5. **AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg nac aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.07am)